# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.45 y.h., DYDD LLUN, 30AIN MEDI, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 678556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
AELODAETH

**AELODAU CABINET**
Y Cynghorydd Beca Brown (Addysg)
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cyllid)

**PRIF WEITHREDWR**
Mr Dafydd Gibbard

**PENNAETH CYLLID**
Mr Dewi A Morgan

**PENAETHIAID UWCHRADD**
Mr David Healey – Ysgol Friars
Mr Arwyn Williams – Ysgol Brynrefail
Mr Aled Williams – Ysgol Ardudwy
Sedd Wag

**PENAETHIAID CYNRADD**
Mr Gwion Owens – Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau
Mr Richard Derwyn Jones – Ysgol Chwilog
Ms Nia Puw – Ysgol Llanrug
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan
Sedd Wag

**UNDEBAU ATHRAWON**
Mr Clive Thomas – Ysgol Syr Hugh Owen

**LLYWODRAETHWYR**
**Arfon**
Cynghorydd Ioan Thomas – Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen
Sedd Wag

**Meirionnydd**
Ms Carys Meleri Fowles – Ysgol Penybryn & Ysgol Tywyn
Mr Eifion Roberts – Ysgol Godre'r Berwyn

**Dwyfor**
Cynghorydd Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Cynghorydd Gwynfor Owen, Ysgol Hafod Lon

**ESGOBAETH**
Sedd Wag

**YSGOLION EGLWYS**
Ms Joanna Thomas– Ysgol y Faenol

**YSGOLION ARBENNIG**
Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**SYWEDYDDION**
Mr Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Ms Ffion Edwards Ellis, Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad
Ms Debbie Anne Williams Jones, Pennaeth Cynorthwyol : Gwasanaethau Corfforaethol
Ms Kathy Bell, Cyfrifydd Grwp – Ysgolion

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION** 5 - 9

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2024. (Copi ynghlwm)

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

I drafod unhryw faterion sy'n codi o'r cofnodion nad ydynt yn ymddanghos ar yr Agenda.

**5. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**6. AELODAETH Y FFORWM**

I dderbyn diweddariad llafar.

**7. BALANSAU YSGOLION: BLWYDDYN GYLLIDOL 2023/24** 10 - 14

I dderbyn gwybodaeth ar falansau ysgolion dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

**8. GRANTIAU YSGOLION 2024/25** 15 - 18

I dderbyn gwybodaeth am grantiau ysgolion ar gyfer 2024/25.

**9. CEFNOGAETH TECHNOLEG**

I dderbyn diweddariad lafar.

**10. CYLLID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD 2025/26** 19 - 26

I dderbyn diweddariad ar gyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

I godi unrhyw fater perthnasol.

**12. DYDDIAD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

I benderfynu ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 01.07.2024

**Yn bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorwyr Beca Brown (Addysg) a Paul Rowlinson (Cyllid)

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Arwyn Williams (Ysgol Brynrefail)

Cynradd: Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan)

**Llywodraethwyr:** Eifion Roberts (Meirionnydd – Ysgol Godre'r Berwyn)
Cynghorydd Gwilym Jones (Dwyfor – Ysgol Borthygest)
Cynghorydd Gwynfor Owen (Dwyfor – Ysgol Hafod Lon)

**Ysgolion Eglwys:** Joanna Thomas (Ysgol y Faenol)

**Ysgolion Arbennig:**

**Esgobaeth:**

**Undebau Athrawon:** Clive Thomas (Ysgol Syr Hugh Owen)

**Sylwedydd:** Gwern ap Rhisiart (Pennaeth yr Adran Addysg)
Debbie Anne Williams Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol)
Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion)
**Geraint Jones (Ysgol Tryfan)**

**Swyddogion:** Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)
Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol Mr Richard Derwyn Jones, Pennaeth Ysgol Chwilog yn Gadeirydd y Fforwm am 2024/2025, gan mai dim ond un cyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2023/24.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Atgoffwyd yr Aelodau o'r trefniant bod y Gadeiryddiaeth ac Is-gadeiryddiaeth yn cylchdroi rhwng y sector gynradd ac uwchradd. Nodwyd fel mater o drefn ei fod yn angenrheidiol i ethol unigolyn o'r sector uwchradd fel Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25 gan fod y Cadeirydd yn unigolyn o'r sector cynradd.

**PENDERFYNWYD** cynnal trafodaeth yng nghyfarfod Grŵp Strategol Penaethiaid Uwchradd er mwyn ethol Is-gadeirydd, gan adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Fforwm hwn.

3. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) a Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid).

Diolchwyd i'r Cynghorydd Ioan Thomas, Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys), Menna Pugh (Ysgol Penybryn), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog) a Bleddyn Jones (Llywodraethwr Ysgol Tregarth) am eu gwaith a'u cyfraniad i'r Fforwm. Cadarnhawyd bod yr unigolion hyn i gyd wedi symud ymlaen o'u swyddi ers cyfarfod blaenorol y Fforwm ac nid ydynt yn Aelodau erbyn hyn.

Croesawyd Pennaeth yr Adran Addysg yn ffurfiol i'w gyfarfod cyntaf o'r Fforwm yn ogystal â'r Aelod Cabinet Cyllid newydd.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2023 fel rhai cywir, gan dderbyn diweddariad fel y nodir isod.

**7. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Eitem 3 – Ymddiheuriadau – addaswyd y cofnod i ddatgan bod Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan) wedi cyflwyno ymddiheuriadau o'r cyfarfod.

**8. AELODAETH Y FFORWM**

Adroddwyd ar aelodaeth y Fforwm fesul grŵp cynrychiolaeth gan dynnu sylw at y pwyntiau isod:

- **Penaethiaid Uwchradd** - cadarnhawyd bod 4 sedd o fewn y grŵp aelodaeth. Nodwyd bod un sedd wag angen ei lenwi ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw bydd hyn yn debygol o newid yn y dyfodol agos wrth i sedd bresennol cynrychiolydd Ysgol Botwnnog droi'n sedd wag. Pwysleisiwyd y bydd angen llenwi dwy sedd wag o fewn y grŵp aelodaeth hwn.
- **Penaethiaid Cynradd** - cadarnhawyd bod 6 sedd o fewn y grŵp aelodaeth. Nodwyd bod tair sedd wag angen eu llenwi ar hyn o bryd.
- **Undebau Athrawon** – cadarnhawyd bod Clive Thomas (Ysgol Syr Hugh Owen) yn cynrychioli'r undebau o fewn y Fforwm ac nid oes unrhyw sedd wag o fewn y grŵp aelodaeth.
- **Llywodraethwyr** – cadarnhawyd bod 6 sedd o fewn y grŵp aelodaeth – 2 aelod ar gyfer pob rhanbarth o'r Sir. Eglurwyd bod cynrychiolaeth ar gyfer Meirionnydd a Dwyfor yn gyflawn ond mae un sedd wag i'w lenwi gan gynrychiolydd o ardal Arfon.
- **Esgobaeth** – cadarnhawyd bod y sedd hon yn wag ar hyn o bryd.
- **Ysgolion Eglwys ac Ysgolion Arbennig** – Cadarnhawyd nad oes sedd wag yn y grwpiau aelodaeth hyn.

Eglurwyd bod aelodaeth y Fforwm wedi cael ei drafod mewn cyfarfod o benaethiaid dalgylchol yn Arfon yn ddiweddar a mynegwyd syndod am brinder aelodau. Gofynnwyd i swyddogion

sicrhau bod cyfleoedd i ymuno â'r Fforwm yn cael eu rhannu gyda phenaethiaid er mwyn sicrhau bod seddi gwag yn cael eu llenwi'n amserol.

**PENDERFYNWYD paratoi dogfennaeth er budd y grwpiau strategol yn cadarnhau gofynion aelodaeth y Fforwm a gofyn am aelodau newydd i ymuno erbyn y cyfarfod nesaf ym mis Medi 2024. Caniatawyd cynrychiolaeth penaethiaid cynradd ac uwchradd presennol i godi'r mater mewn cyfarfodydd penaethiaid dalgylchol priodol.**

## 9. CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan y Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod angen cadarnhau cytundebau lefel gwasanaeth presennol ac ystyried unrhyw addasiadau posib ar gyfer y dyfodol.

Ystyriwyd bod 12 o gytundebau lefel gwasanaeth mewn bodolaeth, gyda 10 ohonynt yn gyfredol. Esboniwyd bod 8 o'r cytundebau lefel gwasanaeth wedi eu diweddaru ar gyfer 2023-26 a'u bod yn manylu ar drefniadau Adnoddau Dynol, Archifau, Amgueddfeydd, Cyflogau a Chontractau, Cynnal Tiroedd, Cynnal a Chadw Eiddo a Llyfrgelloedd. Cadarnhawyd bod cytundeb ar gyfer Canolfan Busnes Addysg (Cynradd) wedi cael ei gadarnhau ar gyfer 2024-29.

Sicrhawyd bod cytundeb gwasanaeth Arlwyo wedi cael ei ddiweddaru am gyfnod o dair blynedd ar gyfer ysgolion cynradd, ac am gyfnod o flwyddyn ar gyfer yr ysgolion uwchradd ar hyn o bryd. Ymhelaethwyd bod yr un trefniadau mewn lle ar gyfer cytundebau glanhau yn y sectorau cynradd ac uwchradd fel y cytundebau arlwyo uchod.

Cydnabuwyd bod 2 cytundeb lefel gwasanaeth wedi dyddio gan dynnu sylw at yr angen i ail edrych arnynt. Manylwyd bod y cytundebau hyn yn ymwneud â'r maes Cyllid a Rheoliadau banc, taliadau, incwm a derbyn arian.

Gofynnwyd am ganiatâd y Fforwm i ymestyn y cytundebau lefel gwasanaeth sydd wedi dyddio, er mwyn gallu sicrhau bod trefniadau mewn lle erbyn mis Ebrill 2025 er mwyn galluogi adolygu'r cytundebau'n drylwyr i'r cyfnod nesaf. Pwysleisiwyd bod gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu i bob ysgol

**PENDERFYNWYD ymestyn cytundebau lefel gwasanaeth hyd at Ebrill 2025, er mwyn sicrhau trefniadau ar gyfer llunio cytundebau mwy diweddar o Ebrill 2025 ar gyfer y blynyddoedd nesaf.**

## 10. FFORMIWLA CYLLIDO YSGOLION UWCHRADD - ADOLYGU ARLWYAETH A GLANHAU

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod grŵp penaethiaid uwchradd wedi cyfarfod er mwyn ystyried adolygu trefniadau presennol arlwyaeth a glanhau ysgolion ac ystyried trefniadau i'r dyfodol. Ymhelaethwyd mai Geraint Williams sydd yn arwain ar y gwaith, gan edrych ar gostau'r gwasanaethau i'r holl ysgolion. Adroddwyd yn ogystal, bod fformiwla cyllido mewn lle ar gyfer arlwyaeth a glanhau gan fanylu bod £1.2miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer arlwyo ac £1miliwn ar gyfer trefniadau glanhau.

Esboniwyd mai'r trefniant presennol ar gyfer addysg uwchradd yw bod y dyraniad ar gyfer y gwasanaethau yn cyrraedd yr ysgolion yn unol â maint yr ysgol, ond cydnabuwyd nad yw hynny'n adlewyrchu'r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu. Nodwyd felly bod addasiadau yn debygol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu hariannu'n gywir ar draws y sir. Nodwyd gall hyn arwain at gynnydd neu ostyngiad ar gyfer dyraniad arlwyaeth a glanhau ar lefel ysgolion unigol. Tynnwyd sylw nad ydi maint y gwariant ar lefel sirol yn cael ei addasu.

Nodwyd bod penaethiaid yn awyddus i gael trafodaeth bellach ar y fformiwlâu hyn er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu natur a'u cymhlethdod ac i ystyried os yw'r fformiwlâu yn parhau i fod yn addas ar gyfer ysgolion. Cadarnhawyd bod yr Adran yn awyddus i gynnal y drafodaeth hon. Ymrwymwyd i gynnal y trafodaethau hyn o fewn cyfarfodydd y fforymau strategol cyn adrodd yn ôl ar safbwyntiau, sylwadau ac argymhellion y penaethiaid, mewn cyfarfod o'r Fforwm hwn.

**PENDERFYNWYD : Cynnal trafodaeth bellach ar fformiwlâu arlwyaeth a glanhau yn dilyn derbyn sylwadau ac argymhellion y penaethiaid yn dilyn cyfarfod o'r fforymau strategol.**

## 11. TRAFODAETHAU TORIADAU ARIANNOL

Cyflwynwyd yr eitem gan Bennaeth yr Adran gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen i ddatblygu cynlluniau arbedion a thoriadau ar draws y Cyngor yn sgil y sefyllfa ariannol bresennol. Esboniwyd bod y Cyngor wedi gwneud toriadau cyfwerth â 3% dros y ddwy flynedd diwethaf ar draws ei wasanaethau ond pwysleisiwyd yr angen am fwy o doriadau i'r dyfodol.

Manylwyd bod y Cyngor yn chwilio i wireddu toriadau gwerth 3% pellach dros y tair blynedd nesaf (oddeutu £36miliwn). Pwysleisiwyd nad oes penderfyniadau pendant wedi cael eu gwneud hyd yma a bod Pennaeth yr Adran yn cyflwyno cynlluniau'r Adran ar gyfer arbedion a thoriadau i'r Aelodau Cabinet ac Arweinydd y Cyngor dros yr wythnosau sydd i ddod gan amlygu cost gwasanaethau a rhestru gwasanaethau statudol.

Ymhelaethwyd yr ystyrir bod hyn yn doriad o £2.7miliwn i ysgolion dros y tair blynedd nesaf. Pwysleisiwyd nad oes penderfyniad ar faint o effeithiau'r toriadau ar ysgolion, a nodwyd y gobeithir bydd cyfran o'r toriadau yn gallu cael eu gwireddu'n fewnol. Ystyriwyd bod y toriadau ar ysgolion yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

- £1.3 miliwn o doriadau yn y sector gynradd
- £1.2 miliwn o doriadau yn y sector uwchradd
- £178,000 o doriadau yn y sector arbennig.

Gofynnwyd i'r Fforwm am eu mewnbwn am y dulliau gorau o fynd ati i geisio gwireddu'r toriadau ac arbedion hyn. Nodwyd y sylwadau isod gan aelodau'r Fforwm:

- Cytunwyd bod maint y toriadau i'r dyfodol yn frawychus.
- Teimlwyd ei fod yn bwysig bod ysgolion yn derbyn cadarnhad o isafswm lefel gwasanaeth sy'n dderbyniol yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan osod allan gofynion penodol yr ysgolion yn glir i'r penaethiaid.
- Cyfeiriwyd ei fod yn bwysig nad yw unrhyw doriadau yn effeithio ar yr ysgolion hynny sydd eisoes mewn gwarchodaeth.
- Ystyriwyd bod ysgolion o faint canolig yn aml yn dioddef yn ystod cyfnodau heriol o'r math yma. Eglurwyd y bydd y toriadau yn debygol o arwain at golli profiadau ymarferol

oherwydd na fydd gan ysgolion niferoedd staff digonol i oruchwylio gweithgareddau o'r fath.

- Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ddiweddaru'r Strategaeth Addysg.
- Ystyriwyd nad yw'r gyfundrefn addysg yn effeithlon yng Ngwynedd ar hyn o bryd oherwydd yr angen i wasanaethu cynifer o ysgolion gyda niferoedd disgyblion yn mynd yn llai.
- Rhannwyd ymdeimlad cyffredinol bod unigolion yn derbyn bod cau ysgolion lleiaf y sir yn anorfod.

Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhawyd bod trefniadau mewn lle i ddiweddaru'r strategaeth addysg a disgwylir y byddai'n amlygu disgwyliadau gwasanaeth a phwysau ysgolion i'r dyfodol.

Ymhelaethwyd ei fod yn debygol i fwy o ysgolion cael eu categoreiddio o dan warchodaeth wrth i'r cyfnod hwn barhau. Yn anffodus, cadarnhawyd ei fod yn debygol bydd cynnal sgyrsiau am y posibilrwydd o gau drysau ysgolion yn anorfod oherwydd y wasgfa ariannol. Eglurwyd os bydd ysgolion yn gorfod cau, bydd yr arbediad ariannol o gynnal yr ysgolion hynny yn cael ei drosglwyddo i leihau'r arbediad ariannol a ddisgwylir o ysgolion eraill y sir.

Ystyriwyd bod oediad yr Adran i foderneiddio addysg hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa sy'n wynebu ysgolion yn y blynyddoedd nesaf. Sicrhawyd bydd yr Adran yn cyfathrebu unrhyw benderfyniadau a newidiadau gyda'r ysgolion gyda thryloywder wrth symud ymlaen

**12. EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd byddai'r eitemau isod yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod nesaf:

- Toriadau ariannol
- Adrodd yn ôl ar drafodaeth fformiwlâu cyllido ysgolion – arlwyaeth a glanhau.
- Balansau ysgolion a phroffil balansau dros y blynyddoedd diwethaf.
- Cefnogaeth technoleg gwybodaeth – er mwyn cyllido i'r dyfodol.

Croesawyd yr Aelodau i yrru unrhyw argymhelliad ychwanegol am eitemau i'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth.

**13. UNRHYW FATER ARALL**

Dim i'w nodi.

**14. DYDDIAD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf cyn hanner tymor yr Hydref. Cadarnhawyd bydd swyddogion yn gyrru cais cyfarfod pan fydd dyddiad wedi cael ei gadarnhau.

Cytunwyd i gychwyn y cyfarfod am 3:45 er mwyn caniatáu amser digonol i'r Aelodau ymuno.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.h. a daeth i ben am 4:10 y.h..

| CYFARFOD | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
|---|---|
| DYDDIAD | 30 Medi 2024 |
| TEITL | Balansau Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2023/24 |
| PWRPAS | Cyflwyno er gwybodaeth |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr adroddiad |
| AWDUR | Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion |

## 1 Balansau Ysgolion

1.1 Atodir er gwybodaeth patrwm balansau ysgolion dros 5 mlynedd, sydd hefyd yn cynnwys balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2024 (**atodiad 1**).

Dyma grynodeb o'r cyfnod cyn COVID –

| 31 Mawrth | cynradd | dilynol | uwchradd | arbennig | **cyfanswm** | + / - | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017 | £2,018,515 | | £816,787 | £43,230 | **£2,878,532** | | |
| 2018 | £2,743,045 | £425,372 | £893,695 | -£43,633 | **£4,018,479** | £1,139,947 | |
| 2019 | £2,481,037 | £484,789 | £973,687 | £60,860 | **£4,000,373** | -£18,105 | |
| 2020 | £2,469,193 | £398,894 | £1,428,560 | £36,343 | **£4,332,991** | £332,617 | |
| 2021 | £5,847,190 | £656,128 | £3,848,722 | £401,222 | **£10,753,263** | £6,420,272 | COVID |
| 2022 | £9,123,329 | £843,785 | £6,066,267 | £661,596 | **£16,694,977** | £5,941,715 | COVID |
| 2023 | £6,573,803 | £820,853 | £3,980,691 | £541,680 | **£11,917,027** | -£4,777,950 | |
| 2024 | £4,980,580 | £811,962 | £2,161,056 | £588,473 | **£8,542,071** | -£3,374,957 | |

Gwelwch effaith blynyddoedd COVID ar balansau ysgolion. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae lleihad sylweddol wedi bod a rhagwelir lleihad pellach erbyn diwedd 2024/25.

Dyma ydi'r patrwm cenedlaethol. Nid yw balansau ysgolion Cymru wedi'i cyhoeddi gan Llywodraeth Cymru hyd yma, ond mae gwaith gan cyfrifwyr yr awdurdodau yn dangos lleihad o £95miliwn ym malansau rhwng Mawrth 2023 a Mawrth 2024.

1.2 Mae 3 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 20232/24. Mae swyddogion addysg a cyllid yn gweithio gyda'r ysgolion i adnabod datrusiad i'r sefyllfa.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.

2.2 Mae'r trefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –

- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir
- yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda'r ysgol bydd yr Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio'r balansau
- adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu'r arian yn ôl
- mae cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella'r ysgol

## 3. Casgliad

3.1 Mae ysgolion yn defnyddio balansau i gefnogi disgyblion presennol. Wrth osod cyllidebau 2024/25 mae defnydd pellach o'r balansau. Mae defnydd o balansau i osod cyllideb unai yn yn gohirio toriadau fydd rhaid gweithredu yn y dyfodol, neu i bontio cyfnod lle rhagwelir cynnydd mewn cyllid yn y dyfodol agos.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gydag ysgolion i wneud defnydd doeth o'r balansau sylweddol sydd yn parhau ar gael yn 2024/25.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

## Balansau Ysgolion / School Balances

atodiad / appendix 1

| | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | 31/03/2020 | 31/03/2021 | 31/03/2022 | 31/03/2023 | 31/03/2024 |
| 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £60,328 | £145,620 | £200,407 | £157,342 | £160,522 |
| 2 | 2004 | Nefyn | £20,620 | £86,623 | £138,546 | £131,346 | £126,507 |
| 3 | 2006 | Llanrug | £30,327 | £111,279 | £164,240 | £116,246 | £80,958 |
| 4 | 2008 | Abererch | £56,176 | £108,353 | £118,391 | £67,416 | £54,023 |
| 5 | 2009 | Abersoch | £2,371 | £1,772 | £0 | ysgol wedi cau / school closed | |
| 6 | 2010 | Beddgelert | £12,273 | £43,340 | £56,684 | £32,051 | £17,051 |
| 7 | 2011 | Bethel | £10,804 | £56,485 | £85,229 | £38,681 | £29,253 |
| 8 | 2013 | Bodfeurig | £21,838 | £39,229 | £70,870 | £56,733 | £62,745 |
| 9 | 2015 | Borthygest | £21,517 | £43,268 | £47,873 | £11,644 | £322 |
| 10 | 2017 | Brynaerau | £33,654 | £64,307 | £76,404 | £64,545 | £77,255 |
| 11 | 2026 | Y Gelli | £30,648 | £99,765 | £186,057 | £170,208 | £127,506 |
| 12 | 2028 | Penybryn | £8,359 | £62,561 | £133,255 | £90,424 | £22,942 |
| 13 | 2033 | Treferthyr | £32,557 | £64,093 | £113,411 | £70,052 | £48,883 |
| 14 | 2036 | Chwilog | £210 | £34,307 | £57,488 | £22,598 | £18,204 |
| 15 | 2039 | Crud Y Werin | £18,396 | £50,241 | £79,082 | £75,793 | £69,940 |
| 16 | 2042 | Dolbadarn | £53,036 | £124,916 | £214,812 | £226,291 | £226,603 |
| 17 | 2046 | Edern | £31,020 | £81,059 | £108,740 | £81,547 | £75,005 |
| 18 | 2047 | Felinwnda | £10,288 | £26,809 | £59,541 | £38,231 | £0 |
| 19 | 2048 | Bro Plennydd | £16,564 | £47,265 | £66,207 | £25,192 | £2,743 |
| 20 | 2049 | Garndolbenmaen | £88 | £26,080 | £46,261 | £23,628 | £48,122 |
| 21 | 2051 | Glanadda | £63,022 | £0 | ysgol wedi cau / school closed | | |
| 22 | 2059 | Llanaelhaearn | £6,522 | £0 | ysgol wedi cau / school closed | | |
| 23 | 2060 | Llanbedrog | £10,411 | £53,014 | £116,556 | £90,995 | £84,479 |
| 24 | 2066 | Llangybi | £131 | £26,370 | £51,588 | £55,208 | £30,917 |
| 25 | 2069 | Llanllechid | £74,445 | £148,515 | £214,472 | £178,240 | £84,156 |
| 26 | 2070 | Llanllyfni | £80,760 | £119,451 | £118,678 | £59,233 | £71,463 |
| 27 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | £31,175 | £54,339 | £94,988 | £91,946 | £73,151 |
| 28 | 2078 | Baladeulyn | £11,377 | £27,995 | £42,941 | £24,526 | £34,879 |
| 29 | 2081 | Nebo | £18,307 | £29,125 | £37,459 | -£10,999 | £4,734 |
| 30 | 2085 | Penisarwaen | £5,765 | £59,054 | £85,237 | £53,117 | £57,403 |
| 31 | 2089 | Bro Lleu | £4,426 | £69,574 | £131,493 | £73,216 | £34,125 |
| 32 | 2093 | Pentreuchaf | £15,465 | £82,104 | £97,540 | £50,517 | £38,237 |
| 33 | 2097 | Rhiwlas | £15,309 | £23,470 | £32,795 | £44,746 | £57,501 |
| 34 | 2098 | Rhosgadfan | £3,412 | £28,729 | £56,515 | £3,909 | £1,623 |
| 35 | 2099 | Rhostryfan | £15,174 | £50,339 | £105,298 | £73,931 | £31,468 |
| 36 | 2103 | Sarn Bach | £21,776 | £67,967 | £75,023 | £50,100 | £33,261 |
| 37 | 2104 | Eifion Wyn | £773 | £105,660 | £125,751 | £40,582 | -£12,339 |
| 38 | 2108 | Talysarn | £48,679 | £59,345 | £117,275 | £103,821 | £126,789 |
| 39 | 2110 | Y Gorlan | £67,078 | £116,517 | £183,665 | £144,062 | £111,981 |
| 40 | 2111 | Yr Eifl | £9,979 | £28,571 | £54,978 | £53,412 | £61,619 |
| 41 | 2112 | Tudweiliog | £8,200 | £39,768 | £58,284 | £36,769 | £28,551 |
| 42 | 2113 | Waunfawr | -£5,120 | £40,730 | £82,497 | £60,115 | £80,526 |
| 43 | 2116 | Glancegin | £49,140 | £134,653 | £273,049 | £297,593 | £247,146 |
| 44 | 2118 | Babanod Coed Mawr | £49,129 | £0 | ysgol wedi cau / school closed | | |
| 45 | 2119 | Yr Hendre | -£47,169 | £35,429 | £198,536 | £135,722 | £121,403 |
| 46 | 2122 | Bontnewydd | £61,196 | £96,334 | £135,662 | £96,325 | £12,418 |

## Balansau Ysgolion / School Balances

atodiad / appendix 1

| | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol** | **Enw Ysgol** | **31/03/2020** | **31/03/2021** | **31/03/2022** | **31/03/2023** | **31/03/2024** |
| 47 | 2123 | Y Garnedd | **£24,292** | **£159,287** | **£242,708** | **£114,182** | **£56,028** |
| 48 | 2125 | Cymerau | **£84,423** | **£226,957** | **£247,540** | **£162,345** | **£132,999** |
| 49 | 2126 | Abercaseg | **£102,127** | **£131,708** | **£175,998** | **£151,896** | **£117,102** |
| 50 | 2127 | Y Felinheli | **£20,691** | **£66,216** | **£178,675** | **£132,633** | **£68,406** |
| 51 | 2181 | Traeth | **£64,964** | **£130,868** | **£198,189** | **£204,803** | **£130,152** |
| 52 | 2185 | Corris | **£17,987** | **£45,699** | **£66,227** | **£48,800** | **£55,100** |
| 53 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | **£41,428** | **£109,383** | **£149,594** | **£141,761** | **£104,845** |
| 54 | 2190 | Bro Cynfal | **£27,330** | **£36,948** | **£78,656** | **£89,597** | **£39,632** |
| 55 | 2192 | Edmwnd Prys | **£11,206** | **£29,789** | **£62,839** | **£72,440** | **£27,991** |
| 56 | 2194 | Llanbedr | **£9,054** | **£36,300** | **£65,057** | **£58,459** | **£37,900** |
| 57 | 2198 | Y Garreg | **£9,939** | **£28,544** | **£43,392** | **£24,017** | **£15,585** |
| 58 | 2199 | O.M.Edwards | **£5,780** | **£45,513** | **£89,051** | **£77,067** | **£81,570** |
| 59 | 2205 | Manod | **£50,314** | **£79,929** | **£151,514** | **£163,075** | **£154,643** |
| 60 | 2207 | Pennal | **£2,201** | **£26,322** | **£43,976** | **£18,905** | **£32,293** |
| 61 | 2208 | Cefn Coch | **£73,121** | **£129,919** | **£177,104** | **£116,852** | **£85,524** |
| 62 | 2210 | Talsarnau | **£34,916** | **£75,249** | **£80,427** | **£84,441** | **£36,901** |
| 63 | 2211 | Tanygrisiau | **£13,318** | **£33,780** | **£45,478** | **£29,321** | **£10,975** |
| 64 | 2212 | Penybryn | **£72,503** | **£169,756** | **£224,771** | **£171,203** | **£153,139** |
| 65 | 2213 | Bro Hedd Wyn | **£19,860** | **£47,421** | **£71,244** | **£46,861** | **£18,919** |
| 66 | 2214 | Frongoch | **£51,990** | **£43,514** | **£59,631** | **£28,842** | **£28,111** |
| 67 | 2219 | Tan y Castell | **£12,981** | **£40,325** | **£83,352** | **£66,772** | **£57,168** |
| 68 | 2220 | Ffridd y Llyn | **£28,723** | **£46,020** | **£58,728** | **£7,031** | **£38,244** |
| 69 | 2221 | Maenofferen | **£89,198** | **£186,960** | **£253,336** | **£163,522** | **£115,323** |
| 70 | 2227 | Hirael | **£66,639** | **£134,650** | **£201,850** | **£123,121** | **£115,850** |
| 71 | 2228 | Craig y Deryn | **£36,733** | **£33,769** | **£90,500** | **£21,249** | **£20,119** |
| 72 | 2229 | Bro Llifon | **£44,655** | **£127,677** | **£184,178** | **£165,627** | **£171,770** |
| 73 | 3004 | Pont y Gôf | **£36,162** | **£59,902** | **£82,845** | **£81,261** | **£48,836** |
| 74 | 3005 | Maesincla | **£116,579** | **£158,545** | **£241,912** | **£68,937** | **-£25,616** |
| 75 | 3009 | Faenol | **£82,449** | **£141,933** | **£243,651** | **£183,633** | **£123,164** |
| 76 | 3010 | Foelgron | **£1,028** | **£24,919** | **£47,317** | **£46,916** | **£38,529** |
| 77 | 3013 | Llandygai | **£28,461** | **£55,064** | **£98,710** | **£65,677** | **-£12,672** |
| 78 | 3018 | Llandwrog | **£18,462** | **£26,946** | **£43,935** | **£32,930** | **£13,925** |
| 79 | 3023 | Llanystumdwy | **£814** | **£20,211** | **£41,080** | **£36,355** | **£27,984** |
| 80 | 3029 | Tregarth | **£26,232** | **£105,162** | **£130,336** | **£92,614** | **£64,325** |
| 81 | 3030 | Cae Top | **£1,080** | **£62,083** | **£147,850** | **-£9,308** | **£26,601** |
| 82 | 3300 | Santes Helen | **£33,222** | **£78,892** | **£89,165** | **£62,690** | **£27,834** |
| 83 | 3301 | Our Lady | **£17,894** | **£76,606** | **£118,731** | **£120,223** | **£77,304** |
| | | **CYNRADD / PRIMARY** | **£2,469,193** | **£5,847,190** | **£9,123,329** | **£6,573,803** | **£4,980,580** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3401 | Bro Idris | **£434,473** | **£457,150** | **£334,295** | **£406,904** | **£395,244** |
| 2 | 3402 | Godre'r Berwyn | **-£35,579** | **£198,978** | **£509,490** | **£413,949** | **£416,718** |
| | | **DILYNOL / MIDDLE** | **£398,894** | **£656,128** | **£843,785** | **£820,853** | **£811,962** |

## Balansau Ysgolion / School Balances

atodiad / appendix 1

| | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | 31/03/2020 | 31/03/2021 | 31/03/2022 | 31/03/2023 | 31/03/2024 |
| 1 | 4002 | Dyffryn Ogwen | -£27,790 | £238,648 | £485,832 | £277,628 | -£60,011 |
| 2 | 4003 | Botwnnog | -£20,950 | £321,198 | £640,470 | £454,173 | £241,110 |
| 3 | 4004 | Brynrefail | £225,526 | £424,698 | £570,692 | -£10,862 | -£260,346 |
| 4 | 4007 | Dyffryn Nantlle | £27,212 | £246,374 | £323,735 | £164,943 | £61,435 |
| 5 | 4009 | Eifionydd | £126,493 | £381,122 | £316,209 | £263,013 | £157,495 |
| 6 | 4031 | Y Moelwyn | £129,708 | £250,385 | £482,080 | £671,222 | £806,636 |
| 7 | 4032 | Tywyn | £115,668 | £264,273 | £405,781 | £295,185 | £287,131 |
| 8 | 4034 | Ardudwy | £72,606 | £209,013 | £396,350 | £408,614 | £343,820 |
| 9 | 4036 | Friars | £7,250 | £411,485 | £974,226 | £701,567 | £413,146 |
| 10 | 4037 | Tryfan | £29,937 | £163,055 | £301,479 | £224,502 | £96,745 |
| 11 | 4039 | Syr Hugh Owen | £529,297 | £648,636 | £709,566 | £165,222 | -£244,330 |
| 12 | 4040 | Glan Y Môr | £213,603 | £289,836 | £459,848 | £365,482 | £318,225 |
| | | **UWCHRADD / SECONDARY** | **£1,428,560** | **£3,848,722** | **£6,066,267** | **£3,980,691** | **£2,161,056** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3502 | Pendalar | £7,149 | £209,496 | £318,168 | £237,513 | £250,266 |
| 2 | 3503 | Hafod Lon | £29,194 | £191,726 | £343,428 | £304,168 | £338,207 |
| | | **ARBENNIG / SPECIAL** | **£36,343** | **£401,222** | **£661,596** | **£541,680** | **£588,473** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM / TOTAL** | **£4,332,991** | **£10,753,263** | **£16,694,977** | **£11,917,027** | **£8,542,071** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **30 Medi 2024** |
| **TEITL** | **Grantiau Ysgolion 2024/25** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

## 1 Grantiau Ysgolion

1.1 Atodir er gwybodaeth rhestr o grantiau ysgolion am 2024/25 (**atodiad 1**).

Dyma grynodeb –

| | Grant Safonau | Grant Datblygu Proffesiynol | Grant Gweithredu ADY | Grant Datblygu Disgyblion | Grant Datblygu Disgyblion - Smoothing | Curriculum Reform | Cyfanswm Grantiau 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cynradd | £3,929,886 | £194,019 | £249,069 | £1,620,350 | £86,794 | £118,500 | **£6,198,618** |
| dilynol | £314,579 | £32,114 | £22,923 | £129,950 | £9,843 | £16,372 | **£525,781** |
| uwchradd | £1,002,409 | £196,420 | £129,569 | £971,750 | £20,580 | £101,057 | **£2,421,784** |
| arbennig | £110,929 | £48,868 | £17,751 | £87,400 | £0 | £3,415 | **£268,364** |
| **cyfanswm** | **£5,357,803** | **£471,421** | **£419,311** | **£2,809,450** | **£117,216** | **£239,345** | **£9,414,546** |

1.2 O ran yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion o'r newydd yn 2024/25 mae grantiau gwerth 9% -

| | Dyraniad | Grantiau | Adnoddau | % |
|---|---|---|---|---|
| cynradd | £42,242,531 | £6,198,618 | £48,441,148 | 13% |
| dilynol | £6,812,271 | £525,781 | £7,338,052 | 7% |
| uwchradd | £41,855,199 | £2,421,784 | £44,276,983 | 5% |
| arbennig | £5,718,940 | £268,364 | £5,987,304 | 4% |
| **cyfanswm** | **£96,628,940** | **£9,414,546** | **£106,043,487** | **9%** |

| cyfwerth athro | cyfwerth ategol |
|---|---|
| 103 | 310 |
| 9 | 26 |
| 40 | 121 |
| 4 | 13 |
| **157** | **471** |

1.3 Mae dyraniad uwchradd a dilynol yn cynnwys Grant 6ed dosbarth gwerth

| | |
|---|---|
| uwchradd | £4,046,555 |
| dilynol | £342,170 |
| Grant 6ed | £4,388,725 |

Mae cyfrifoldeb am gyllido 6ed wedi trosglwyddo o Llywodraeth Cymru i gorff MEDR. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn gorff hyd-braich newydd a fydd yn gyfrifol am gyllido a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 o fis Awst 2024.

## 1.4 Prif newid grantiau 2024/25

Mae'r Grant Safonau newydd yn disodli cyn grantiau -

- Grant Gwella Addysg - Cyfnod Sylfaen
- Grant Gwella Addysg – Arall
- Cyflymu Dysgu (RRRS)
- Llwybrau Dysgu 14-16oed

Wrth gwneud y newid yma mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi pennu gwerth y grant i pob ysgol, yn hytrach bod hawliau lleol sut i ddyrannu'r gwahanol grantiau. O gymharu gwerth y grantiau yn 2023/24 mae ysgolion Gwynedd yn derbyn £662mil yn llai o arian yn 2024/25.

## 1.5 Argymhelliad

**Gofynnir i'r Fforwm dderbyn yr adroddiad.**

**Grantiau Ysgolion 2024/25**

| | | | Grant Safonau | Grant Datblygu Proffesiynol | Grant Gweithredu ADY | Grant Datblygu Disgyblion | Grant Datblygu Disgyblion - Smoothing | Curriculum Reform | Cyfanswm Grantiau 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2000 | Ysgol Gwaun Gyfni | £50,115 | £3,484 | £3,649 | £46,000 | £1,790 | £1,821 | £106,859 |
| 2 | 2004 | YSGOL GYNRADD NEFYN | £56,143 | £2,200 | £3,610 | £16,100 | £0 | £1,845 | £79,899 |
| 3 | 2006 | Ysgol Llanrug | £123,785 | £4,767 | £5,892 | £27,600 | £0 | £3,458 | £165,502 |
| 4 | 2008 | Ysgol Gynradd Abererch | £37,927 | £1,439 | £2,412 | £12,650 | £0 | £993 | £55,420 |
| 5 | 2010 | YSGOL BEDDGELERT | £19,426 | £917 | £1,599 | £5,750 | £3,579 | £444 | £31,716 |
| 6 | 2011 | Ysgol Bethel | £59,993 | £2,888 | £3,843 | £14,950 | £895 | £2,003 | £84,571 |
| 7 | 2013 | Ysgol Bodfeurig | £26,203 | £1,100 | £2,044 | £4,600 | £0 | £726 | £34,673 |
| 8 | 2015 | YSGOL GYNRADD BORTH-Y-GEST | £14,401 | £917 | £1,541 | £2,300 | £0 | £402 | £19,561 |
| 9 | 2017 | Ysgol Brynaerau | £32,824 | £1,925 | £2,218 | £13,800 | £0 | £872 | £51,639 |
| 10 | 2026 | Ysgol Y Gelli | £101,994 | £4,400 | £5,428 | £12,650 | £0 | £3,132 | £127,604 |
| 11 | 2028 | Ysgol Penybryn | £10,671 | £2,429 | £3,398 | £31,050 | £0 | £1,773 | £49,321 |
| 12 | 2033 | Ysgol Treferthyr | £48,919 | £2,017 | £3,127 | £13,800 | £2,684 | £1,575 | £72,122 |
| 13 | 2036 | Ysgol Gynradd Chwilog | £52,219 | £1,696 | £2,624 | £5,750 | £0 | £1,189 | £63,478 |
| 14 | 2039 | YSGOL CRUD-Y-WERIN | £35,031 | £1,421 | £2,276 | £3,450 | £0 | £823 | £43,002 |
| 15 | 2042 | Ysgol Dolbadarn | £63,853 | £3,575 | £3,823 | £14,950 | £6,263 | £1,920 | £94,385 |
| 16 | 2046 | Ysgol Gynradd Edern | £35,156 | £1,375 | £2,354 | £11,500 | £895 | £1,069 | £52,348 |
| 17 | 2048 | Ysgol Bro Plenydd | £43,938 | £1,100 | £2,644 | £10,350 | £0 | £1,137 | £59,169 |
| 18 | 2049 | Ysgol Gynradd Garndolbenmaen | £8,765 | £1,054 | £1,541 | £11,500 | £0 | £291 | £23,152 |
| 19 | 2060 | Ysgol Gynradd Llanbedrog | £53,377 | £1,834 | £2,818 | £4,600 | £0 | £1,284 | £63,912 |
| 20 | 2066 | Ysgol Gynradd Llangybi | £16,999 | £917 | £1,580 | £4,600 | £3,579 | £430 | £28,105 |
| 21 | 2069 | Ysgol Llanllechid | £109,601 | £5,134 | £6,124 | £34,500 | £895 | £3,773 | £160,027 |
| 22 | 2070 | Ysgol Gynradd Llanllyfni | £31,430 | £2,750 | £2,315 | £13,800 | £895 | £919 | £52,109 |
| 23 | 2075 | YSGOL BABANOD MORFA NEFYN | £18,643 | £917 | £1,638 | £1,150 | £2,684 | £296 | £25,328 |
| 24 | 2078 | Ysgol Baladeulyn | £6,480 | £1,008 | £1,348 | £9,200 | £895 | £233 | £19,164 |
| 25 | 2081 | Ysgol Gynradd Nebo | £8,390 | £458 | £1,309 | £5,750 | £0 | £195 | £16,103 |
| 26 | 2085 | Ysgol Gymuned Penisarwaun | £17,266 | £1,513 | £1,967 | £1,150 | £1,790 | £643 | £24,328 |
| 27 | 2089 | Ysgol Bro Lleu | £82,160 | £4,034 | £4,771 | £44,850 | £895 | £2,725 | £139,435 |
| 28 | 2093 | YSGOL GYNRADD PENTREUCHAF | £46,145 | £2,200 | £2,702 | £13,800 | £2,684 | £1,241 | £68,772 |
| 29 | 2097 | Ysgol Rhiwlas | £14,065 | £504 | £1,754 | £6,900 | £3,579 | £495 | £27,297 |
| 30 | 2098 | Ysgol Gynradd Rhosgadfan | £16,749 | £917 | £1,851 | £18,400 | £0 | £641 | £38,558 |
| 31 | 2099 | Ysgol Gynradd Rhostryfan | £32,638 | £1,650 | £2,508 | £6,900 | £0 | £1,082 | £44,778 |
| 32 | 2103 | YSGOL SARN BACH | £16,294 | £1,283 | £1,754 | £8,050 | £0 | £490 | £27,871 |
| 33 | 2104 | Ysgol Eifion Wyn | £94,112 | £3,988 | £5,177 | £24,150 | £0 | £2,955 | £130,382 |
| 34 | 2108 | Ysgol Gynradd Talysarn | £54,363 | £2,063 | £2,992 | £25,300 | £0 | £1,354 | £86,072 |
| 35 | 2110 | YSGOL Y GORLAN | £60,765 | £2,475 | £3,204 | £13,800 | £4,474 | £1,514 | £86,233 |
| 36 | 2111 | Ysgol yr Eifl | £27,455 | £917 | £2,122 | £16,100 | £0 | £687 | £47,280 |
| 37 | 2112 | YSGOL GYNRADD TUDWEILIOG | £23,604 | £1,238 | £2,006 | £2,300 | £895 | £635 | £30,677 |
| 38 | 2113 | Ysgol Waunfawr | £57,184 | £2,888 | £3,591 | £14,950 | £0 | £1,689 | £80,302 |
| 39 | 2116 | Ysgol Glancegin | £95,583 | £5,226 | £5,254 | £108,100 | £2,684 | £2,960 | £219,807 |
| 40 | 2119 | Ysgol Yr Hendre | £170,299 | £8,159 | £8,619 | £139,150 | £0 | £5,362 | £331,589 |
| 41 | 2122 | Ysgol Bontnewydd | £89,392 | £3,896 | £5,003 | £12,650 | £0 | £2,818 | £113,759 |
| 42 | 2123 | Ysgol Gymraeg y Garnedd | £183,645 | £8,067 | £8,831 | £82,800 | £0 | £5,557 | £288,900 |
| 43 | 2125 | Ysgol Cymerau | £106,860 | £6,096 | £6,395 | £46,000 | £6,263 | £3,676 | £175,290 |
| 44 | 2126 | Ysgol Abercaseg (Babanod) | £80,528 | £2,567 | £3,011 | £26,450 | £3,579 | £1,167 | £117,303 |
| 45 | 2127 | Ysgol y Felinheli | £87,170 | £3,163 | £4,461 | £10,350 | £4,474 | £2,310 | £111,929 |
| 46 | 2181 | Ysgol y Traeth | £83,240 | £4,263 | £4,887 | £48,300 | £895 | £2,487 | £144,071 |
| 47 | 2185 | Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas | £13,398 | £1,146 | £1,619 | £3,450 | £0 | £452 | £20,065 |
| 48 | 2189 | Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy | £33,199 | £1,834 | £2,450 | £17,250 | £0 | £859 | £55,592 |
| 49 | 2190 | Ysgol Bro Cynfal | £22,244 | £1,192 | £1,599 | £5,750 | £3,579 | £423 | £34,788 |
| 50 | 2192 | Ysgol Edmwnd Prys | £7,340 | £1,650 | £1,445 | £5,750 | £1,790 | £268 | £18,243 |
| 51 | 2194 | Ysgol Gynradd Llanbedr | £23,432 | £1,100 | £1,986 | £3,450 | £0 | £649 | £30,618 |
| 52 | 2198 | YSGOL Y GARREG | £8,906 | £1,100 | £1,367 | £3,450 | £0 | £256 | £15,079 |
| 53 | 2199 | Ysgol O M Edwards | £42,324 | £1,834 | £2,779 | £1,150 | £1,790 | £1,226 | £51,102 |
| 54 | 2205 | Ysgol Manod | £50,323 | £2,200 | £3,108 | £12,650 | £2,684 | £1,299 | £72,264 |
| 55 | 2207 | Ysgol Gynradd Pennal | £15,356 | £1,146 | £1,522 | £1,150 | £0 | £410 | £19,584 |
| 56 | 2208 | Ysgol Cefn Coch | £67,398 | £3,254 | £4,113 | £23,000 | £0 | £2,161 | £99,926 |
| 57 | 2210 | Ysgol Talsarnau | £15,653 | £1,146 | £1,619 | £2,300 | £1,790 | £358 | £22,865 |
| 58 | 2211 | Ysgol Gynradd Tanygrisiau | £20,317 | £1,283 | £1,890 | £10,350 | £5,369 | £576 | £39,784 |
| 59 | 2212 | Ysgol Gynradd Penybryn | £93,578 | £5,226 | £5,564 | £28,750 | £3,579 | £3,219 | £139,915 |
| 60 | 2213 | Ysgol Bro Hedd Wyn | £27,110 | £1,238 | £2,083 | £4,600 | £0 | £778 | £35,809 |
| 61 | 2214 | Ysgol Bro Tryweryn | £30,148 | £688 | £2,044 | £2,300 | £1,790 | £797 | £37,767 |
| 62 | 2219 | Ysgol Tanycastell | £31,511 | £1,100 | £2,508 | £6,900 | £0 | £1,141 | £43,160 |
| 63 | 2220 | Ysgol Ffridd y LLyn | £31,869 | £1,421 | £2,238 | £14,950 | £0 | £659 | £51,137 |
| 64 | 2221 | Ysgol Maenofferen | £99,959 | £4,584 | £5,351 | £52,900 | £2,684 | £3,039 | £168,518 |
| 65 | 2227 | Ysgol Hirael | £84,453 | £3,873 | £4,906 | £58,650 | £0 | £2,913 | £154,795 |
| 66 | 2228 | Ysgol Craig y Deryn | £47,302 | £2,200 | £2,895 | £6,900 | £0 | £1,310 | £60,607 |

| | | | Grant Safonau | Grant Datblygu Proffesiynol | Grant Gweithredu ADY | Grant Datblygu Disgyblion | Grant Datblygu Disgyblion - Smoothing | Curriculum Reform | Cyfanswm Grantiau 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 67 | 2229 | Ysgol Bro Llifon | £79,343 | £3,300 | £4,152 | £18,400 | £0 | £2,067 | £107,261 |
| 68 | 3004 | YSGOL PONT Y GOF | £45,753 | £1,925 | £2,721 | £9,200 | £1,790 | £1,306 | £62,695 |
| 69 | 3005 | Ysgol Gynradd Maesincla | £115,667 | £6,417 | £6,221 | £141,450 | £0 | £3,685 | £273,440 |
| 70 | 3009 | Ysgol Y Faenol | £103,293 | £5,042 | £5,467 | £20,700 | £0 | £3,077 | £137,579 |
| 71 | 3010 | YSGOL FOEL GRON | £14,525 | £917 | £1,619 | £4,600 | £1,790 | £449 | £23,899 |
| 72 | 3013 | Ysgol Llandygai | £41,123 | £2,292 | £2,895 | £28,750 | £0 | £1,387 | £76,447 |
| 73 | 3018 | Ysgol Gynradd Llandwrog | £17,469 | £1,741 | £2,774 | £2,300 | £0 | £579 | £24,863 |
| 74 | 3023 | Ysgol Gynradd Llanystumdwy | £16,311 | £1,375 | £1,503 | £6,900 | £0 | £343 | £26,432 |
| 75 | 3029 | Ysgol Tregarth | £44,410 | £2,929 | £3,127 | £13,800 | £0 | £1,663 | £65,929 |
| 76 | 3030 | Ysgol Cae Top | £103,246 | £4,446 | £5,583 | £54,050 | £0 | £3,212 | £170,537 |
| 77 | 3300 | Ysgol Santes Helen | £18,660 | £1,100 | £1,773 | £12,650 | £895 | £561 | £35,640 |
| 78 | 3301 | Ysgol Ein Harglwyddes | £58,466 | £4,492 | £4,133 | £39,100 | £0 | £2,286 | £108,477 |
| 79 | 4002 | Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda | £58,547 | £12,789 | £7,942 | £75,900 | £0 | £5,612 | £160,790 |
| 80 | 4003 | Ysgol Botwnnog | £115,136 | £13,705 | £10,166 | £46,000 | £0 | £7,136 | £192,142 |
| 81 | 4004 | Ysgol Brynrefail | £104,926 | £19,861 | £13,724 | £82,800 | £895 | £11,487 | £233,693 |
| 82 | 4007 | Ysgol Dyffryn Nantlle | £54,589 | £15,081 | £7,633 | £62,100 | £0 | £5,890 | £145,293 |
| 83 | 4009 | YSGOL EIFIONYDD | £56,778 | £9,617 | £8,000 | £44,850 | £895 | £5,495 | £125,634 |
| 84 | 4031 | Ysgol Y Moelwyn | £55,905 | £8,150 | £7,845 | £63,250 | £0 | £5,275 | £140,425 |
| 85 | 4032 | YSGOL UWCHRADD TYWYN | £59,937 | £11,184 | £8,503 | £48,300 | £0 | £5,949 | £133,873 |
| 86 | 4034 | Ysgol Ardudwy | £50,472 | £9,168 | £7,246 | £60,950 | £0 | £4,835 | £132,671 |
| 87 | 4036 | Ysgol Friars | £181,850 | £38,348 | £23,179 | £194,350 | £0 | £20,821 | £458,548 |
| 88 | 4037 | Ysgol Tryfan | £62,826 | £14,668 | £8,986 | £72,450 | £6,263 | £7,942 | £173,135 |
| 89 | 4039 | Ysgol Syr Hugh Owen | £125,982 | £30,849 | £16,218 | £151,800 | £0 | £13,744 | £338,593 |
| 90 | 4040 | Ysgol Glan y Mor | £75,461 | £13,000 | £10,127 | £69,000 | £12,527 | £6,872 | £186,987 |
| 91 | 5500 | Bro Idris | £182,994 | £16,502 | £12,003 | £67,850 | £8,053 | £8,116 | £295,518 |
| 92 | 5501 | YSGOL Godre'r Berwyn | £131,585 | £15,612 | £10,920 | £62,100 | £1,790 | £8,256 | £230,263 |
| 93 | 7002 | Ysgol Pendalar | £55,670 | £27,333 | £8,876 | £51,750 | £0 | £1,722 | £145,350 |
| 94 | 7010 | Ysgol Hafod Lon | £55,259 | £21,535 | £8,876 | £35,650 | £0 | £1,694 | £123,013 |
| 95 | 9000 | Gwynedd - EOTAS | £8,899 | | | £8,050 | £0 | | £16,949 |
| | | | **£5,366,702** | **£471,421** | **£419,311** | **£2,817,500** | **£117,216** | **£239,345** | **£9,431,495** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cynradd | £3,929,886 | £194,019 | £249,069 | £1,620,350 | £86,794 | £118,500 | £6,198,618 |
| dilynol | £314,579 | £32,114 | £22,923 | £129,950 | £9,843 | £16,372 | £525,781 |
| uwchradd | £1,002,409 | £196,420 | £129,569 | £971,750 | £20,580 | £101,057 | £2,421,784 |
| arbennig | £110,929 | £48,868 | £17,751 | £87,400 | £0 | £3,415 | £268,364 |
| ysgolion | **£5,357,803** | **£471,421** | **£419,311** | **£2,809,450** | **£117,216** | **£239,345** | **£9,414,546** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EOTAS | £8,899 | | | £8,050 | | | £16,949 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cyfanswm | **£5,366,702** | **£471,421** | **£419,311** | **£2,817,500** | **£117,216** | **£239,345** | **£9,431,495** |

# Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

*Additional Learning Needs and Inclusion*

Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad –Diweddariad Medi 2024

ALN and Inclusion Budget – Update, September 2024

Eitem 10

# Gobeithion / Hopes

- System sydd yn deg ar draws Ysgolion priflif, o pob maint // *A system which is equitable across schools*
- Defnyddio data sydd ar gael yn barod // *Using Data that is already collected*
- System sydd yn rhoi mwy o sicrwydd // *Which gives greater financial stability*
- Gallu cynnal a hyfforddi staff sefydlog // *Supporting staff retention and training*
- Gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael // *Efficient use of resources*
- Trosglwyddo i system newydd erbyn Ebrill 2025 // *Tranisitioning to the new system by April 2025*
- Cynnydd neu leihad yn y gyllideb yn effeithio ysgolion yn deg // *Increase or decrease in funding having an equal impact accross schools*

# Gwaith Cynllunio Cyllid ADY Ysgolion

- Ym Medi 2019 Adroddiad Ymchwiliad Gwariant Cyllid Integreiddio i Fwrdd Rheoli Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynigwyd yr angen i newid y dull cyllido.
- Ionawr a Chwefror 2020 Arolygiad Allanol o'r Gwasanaeth ADY a CH yn cadarnhau canfyddiadau'r adroddiad blaenorol.
- Mawrth 2020 Aelodaeth ar gyfer y gweithgor yn cael ei hadnabod trwy ofyn am gynrychiolaeth drwy'r grwpiau strategol, cyllid, ADY, a'r gweithgor yn cychwyn ar y gwaith.
- Chwefror 2021 y Gweithgor yn ystyried **saith** model gwahanol ar gyfer ariannu – Ffafrio Model 7
- Chwefror 2021- Medi 2022 Gwaith modelu model 7 yn parhau
- Rhagfyr 2022 Cyflwyno opsiynau i'r Grŵpiau Strategol
- Ebrill 2023 Cyflwyniad torfol gyda holiadur i Benaethiaid ar gyfer casglu barn (erbyn Mai '23)
- Parhau i weithio ar 'Model 7' (seiliedig ar ddata ADY PLASC) er mwyn symud ymlaen ar gyfer Medi '23/Ebrill '24
- FFORWM CYLLID YSGOLION
- Penderfyniad i oedi tan Ebrill '24 oherwydd bod angen mwy o amser i fodelu ac ystyried sefyllfa gyllidol ehangach
- Chwefror '24 - Penderfyniad rhewi'r gyllideb oherwydd terfynau amser tynn, a'r angen i ryddhau cyllidebau ysgolion
- Mawrth '24 – Awst '24 – parhau i arbrofi gyda pwysedd o fewn Model 7

# Gwaith Cynllunio Cyllid ADY Ysgolion

- **September 2019** Independent Report into ALN funding and management recommends changes to funding models
- **January and February 2020** External Review of ALN and Inclusion confirms the findings of the previous report.
- **March 2020** Finance working group is established with representation from the Headteachers strategic groups, finance, ALN
- **February 2021** Working Group considers seven different models for funding – Model 7 is favoured
- **February 2021- September 2022** Model 7 modelling continues
- **December 2022** Presentation of options to the Strategic Groups
- **April 2023** Presentation to all Headteachers with questionnaire to Heads for opinion gathering (by May '23)
- **Continue** work on 'Model 7' (based on PLASC ALN data) to move forward for September '23/April '24
- **SCHOOL FINANCE FORUM**
- **Decision to delay** until April ‘24 for more time to model and consider a wider financial situation
- **February ‘24 –** A decision to ‘freeze’ ALN funding (apart from exceptions) from Mawrth ‘24 – March ‘25 due to limited time and risk in missing the deadline for releaseing Financial forcasts
- **March ’24 – August ‘24** – work on variation within Model 7 continued

# Meysydd Angen - Gwybodaeth PLASC ADY
# Areas of Need - PLASC ALN Information

lliams)

15
025

## Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)

| Darpariaeth | Lefel |
|---|---|
| CT - Cwricwlwm a dulliau addysgu | 4 |
| GS - Grwpiau a chymorth | 4 |
| AA - Cynghori ac asesu | 3 |
| SR - Adnoddau arbenigol | 4 |

## Additional learning provisions

| Provision | Level |
|---|---|
| CT - Curriculum and teaching methods | 4 |
| GS - Grouping and support | 4 |
| AA - Advice and assessment | 4 |
| SR - Specialised resources | 4 |



Anghenion Dysgu Ychwanegol
Additional Learning Needs

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Gwaith ar bwysedd o fewn Model 7
# Work on the Weightings within Model 7

| Opsiwn/Option A | Opsiwn/Option B | Opsiwn/Option C |
|---|---|---|
| CT – 40%<br>GS – 40%<br>SR – 20%<br>AA – 0%<br><br>(-swm wrth gefn/contingency) | CT – 50%<br>GS – 50%<br>SR – 0%<br>AA – 0%<br><br>(- swm wrth gefn/contingency) | CT – 100%<br>GS – 0%<br>SR – 0%<br>AA – 0%<br><br>(- swm wrth gefn/contingency) |

- Ystyried isafswm ar gyfer pob ysgol (fel bod gan pob ysgol rhywfaint o gyllid ADY)
- *Considering a minimum amount for each school*
- Pwysedd gwahanol ar gyfer Cynllun Datblygu Unigol Awdurdod a CDUYsgol/Fforwm – 2:1
- *Having different weighting for Authority Individual Development Plan versus School/Forum IDPs – 2:1*
- Cadw swm penodol ar gyfer CMU gan bod sgorau'r plant yma ddim yn cymharu gyda CDUA – swm cyfatebol i 20 awr
- *Keeping a consistant sum for each Individual Medical Plan as the PLASC scores aren't good indicators of need to these plans – equivalent to 20 hours*
- Ystyried trosglwyddo graddol lle bo'r angen
- *Considering a gradual transition for schools where needed*

# Paratoi at Mawrth 2025
# Preparing for March 2025

Rhagolygon Rhagfyr 2024 yn cynnwys cyllid ADY, er mwyn symud i'r system newydd ym Mawrth 2025
Financial forcasts in December 2024 to include ALN information in order to transition in March 2025

Eithriadau i'r cyllid o fewn blwyddyn ariannol / *In year variations for 'exceptions' only*:

- Plant yn symud i mewn i'r ardal gyda CDUA neu EHCP
- *Children moving in to the area with LA IDPs or EHCPs*
- Plentyn CDUA yn symud ysgol – ychwanegu at gyllid yr ysgol 'newydd'
- *Children with an LA IDP moving School – addition made to 'new School'*
- Dirywiad sylweddol mewn sefyllfa
- *Significant deterioration in a situation*

# Effaith…Cyfleoedd…?
# Impact…and Opportunities?

- **Bydd rôl y Panel Cymedroli yn newid**
- ***Changes to the role of the Moderation Panel***

- **Symleiddio mynediad i wasanaethau ADY a Ch**
- ***Simplifying access to ALN and Inclusion Teams***

- **Bydd cyfle i leihau biwrocrataeth a chamau di- angen yn ein prosesau**
- ***Reducing beaurocricy and empty steps in processes***